Y Comisiwn Etholiadol

# Rhan A - Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau

## Etholiadau ar gyfer y Senedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu: canllawiau i Swyddogion Canlyniadau

Hydref 2020

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

# Cyfieithiadau a fformatau eraill

Dylai'r adnoddau hyn gael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

# Diweddariadau i'r ddogfen hon

| Diweddarwyd | Disgrifiad o'r newid | Rhif paragraff |
|---|---|---|
| Mawrth 2016 | Wedi ei hailgyhoeddi i gynnwys cyfeiriadau cyfreithiol | DD/G |
| Hydref 2020 | Wedi ei diweddaru i ddwyn i ystyriaeth Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018<br><br>Wedi ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 | |

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad i'r canllawiau hyn ..... 1**

Diben ..... 1

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn ..... 3

Terminoleg ..... 4

**2 Cyd-destun etholiadau llywodraeth leol ...** Error! Bookmark not defined.

Natur yr etholiadau a ymleddir ..... 5

Maint ..... 6

Cofrestru etholwyr ..... 7

**3 Rolau a chyfrifoldebau ..... 8**

Eich rôl a'ch cyfrifoldebau ..... 8

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ..... 10

Eich sgiliau a'ch gwybodaeth ..... 10

Torri dyletswydd swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol ..... 11

Penodiad, rôl a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ..... 12

**4 Safonau perfformiad ..... 13**

Atodiad A - Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr ..... 14

# 1 Cyflwyniad i'r canllawiau hyn

## Diben

1.1 Diben y canllawiau hyn yw hysbysu Swyddogion Canlyniadau am arfer a gweithdrefn rhedeg etholiad ar gyfer etholiadau Senedd Cymru lle caiff yr etholiad ei gyfuno â'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

1.2 Swyddog Canlyniadau Etholaethol (SCE) etholiad y Senedd yw'r sawl a benodwyd yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn yr ardal honno; os bydd etholaeth yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol, dynodir y SCE gan Weinidogion Cymru[1].

1.3 Fel SCE, byddwch yn gyfrifol am weinyddu enwebiadau ymgeiswyr yn yr etholaeth a ymleddir, trefn cynnal yr etholiad, cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad yr etholaeth a chaiff y rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a ymleddir ei chynnwys yn yr etholaeth. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (SCRh) yn gyfrifol am weinyddu enwebiadau pleidiau ac ymgeiswyr unigol yn yr etholiad rhanbarthol a ymleddir a chyfrifo'r canlyniad rhanbarthol. Bydd y SCRh hefyd yn SCE a ddynodir gan Weinidogion Cymru[2].

1.4 Fel SCE byddwch yn gyfrifol, nid yn unig am gynnal etholiad y Senedd yn eich etholaeth, ond hefyd am elfennau cyfunol yr etholiad. Drwy rinwedd eich rôl fel SCE, byddwch hefyd yn Swyddog Canlyniadau Lleol (SCLl) ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[3]. Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu pob agwedd ar gynllunio ar gyfer yr etholiadau.

1.5 Fe'u datblygwyd mewn ymgynghoriad agos ag aelodau o Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECB), Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru (WEPWG), Bwrdd Cynghori Etholiadol y DU (EAB), a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestriadau a Refferenda (ERRWG). Mae'n adlewyrchu'r hyn yr ydym ni, yr WECB, WEPWG a'r ERRWG yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau Etholaethol (SCEau), Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol (SCRhau) a Swyddogion Canlyniadau Lleol (SCLlau) ddisgwyl gan eu staff wrth baratoi ar gyfer etholiadau.

1.6 Dylech eu darllen ar y cyd ag unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau ychwanegol a gyhoeddir gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (SCAH) fel rhan o'i rôl yn cydgysylltu'r gwaith o gynnal yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ei ardal. Mae gan yr SCAH y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i SCLlau sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu,

ac felly wrth weithredu fel SCLl rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer hwn i roi cyfarwyddiadau yn ymestyn i etholiad y Senedd nac elfennau cyfunol yr etholiad[1]. Sut bynnag, dylech weithio'n agos gyda'r SCAH ac ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ganddo wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau i gyd a'u cynnal. Rydym wedi llunio canllawiau cynllunio ar wahân ar gyfer SCAHau yn Saesneg ac yn Gymraeg sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

1.7 Yn y canllawiau hyn byddwn, at ei gilydd, yn defnyddio 'chi' i gyfeirio atoch fel SCE ac SCLl. Lle sonnir am yr SCRh neu'r SCAH, nodir hyn yn benodol. Am ragor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau pob SCau, gweler pennod **3** – Rolau a chyfrifoldebau.

1.8 Lluniwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Etholiadau: Papurau Enwebu) (Ffurflen Gymraeg) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Etholiadau Cyfunol) (Cymru a Lloegr) 2004
- Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Mynediad i Ddogfennau Etholiadol) 2007
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Dynodi Awdurdodau Lleol) 2020
- Rheoliadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Anghymhwyso) (Darpariaethau Atodol) 2012
- Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2012

[1] Heblaw am y ffaith y caiff yr SCAH bennu erbyn pryd y mae'n rhaid i weithdrefnau dilysu ddechrau (oni fydd un o'r etholiadau cyfunol yn etholiad seneddol y DU).

- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Taliadau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd Heddlu) 2016
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Ffurflenni Cymraeg) 2012
- Deddf Cymru 2014
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) 2015
- Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020
- Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiadol) (Cymru) (Diwygio) 2020

1.9 Mae'r rhestr uchod ond yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y meysydd y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hwy a'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd. Disgwyliwn i ddeddfwriaeth bellach ddarparu ar gyfer rheoliadau ymddygiad diwygiedig, rheolau cyfunol yng Nghymru, dynodi SCAHau a ffioedd a thaliadau.

1.10 Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd. Rydych chi'n bersonol gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi adnodd i'ch cefnogi i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau gweinyddu etholiadol.

1.11 Hefyd, mae'n ofynnol i SCEau, SCRhau, SCAHau a SCLlau ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth gyflawni eu dyletswyddau.

1.12 Hefyd, mae'n ofynnol i SCEau, SCRhau, SCAHau a SCLlau ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu'n gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.13 Rhennir y canllawiau'n chwe maes:

- Rhan A - Rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau (Saesneg)
- Rhan B – Cynllunio a threfnu (Saesneg neu Gymraeg)
- Rhan C - Gweinyddu'r etholiad (Saesneg neu Gymraeg)
- Rhan Ch – Pleidleisio absennol (Saesneg neu Gymraeg)
- Rhan D – Cadarnhau a chyfrif y pleidleisiau (Saesneg neu Gymraeg)
- Rhan Dd – Ar ôl datgan y canlyniadau (Saesneg neu Gymraeg)

1.14 Mae pob un o'r rhannau hyn yn cwmpasu:

- yr hyn y mae'n rhaid i SCEau/SCLlau, SCRhau a'r SCAH ei gwneud yn ôl y gyfraith
- yr hyn y disgwyliwn y bydd ei angen arnynt, a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld i allu bodloni ein hunain y gall prif ganlyniadau safonau perfformiad y Comisiwn gael eu cyflawni
- yr arfer a argymhellir i gynorthwyo SCEau/SCLlau a SCRhau i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau

1.15 Ategir y canllawiau hyn gan adnoddau sydd ar gael drwy ddolenni a geir yn y canllawiau.

1.16 Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am ein canllawiau neu unrhyw fater arall yn ymwneud â gweinyddu'r etholiadau, byddwn ar gael i gynnig cymorth parhaus. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau arferol er mwyn ymdrin ag ymholiadau brys ynghylch gweinyddu'r etholiad wrth baratoi at etholiadau a'u cynnal. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau drwy ein Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol.

# Terminoleg

1.17 Yn y canllawiau hyn mae'r term 'etholaeth' yn cyfeirio at etholaeth mewn etholiad ar gyfer y Senedd. Mae'r term 'rhanbarth' yn cyfeirio at ranbarth mewn etholiad ar gyfer y Senedd. Dylid ystyried bod y term 'ardal bleidleisio' yn cyfeirio at un o etholaethau'r Senedd at ddibenion yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. 'Ardal yr heddlu' yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw'r ardal a gwmpesir gan yr heddlu.

# 2 Cyd-destun yr etholiadau

2.1 Bydd yr etholiadau yn ddigwyddiad arwyddocaol, gan beri eu heriau penodol eu hunain, a bydd eich gwaith i redeg etholiadau yn dda yn destun craffu sylweddol - gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, ynghyd â'r cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Hyd yn oed os ydych wedi bod yn SCE, SCRh neu SCLl o'r blaen, bu newidiadau mewn deddfwriaeth - a thirwedd - ers yr etholiadau cyfatebol diwethaf sy'n gwneud y digwyddiad hwn yn wahanol i unrhyw etholiad arall y gallech fod wedi'i gynnal eisoes. Yn arbennig, bydd y cyfuniad o'r etholiad ar gyfer y Senedd a'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r gorgyffwrdd o ran ardaloedd etholiadol yn peri heriau arbennig o ran cynllunio ar eu cyfer a'u cynnal.

2.3 Mae'r bennod hon yn ceisio amlygu rhai o'r agweddau penodol ar gyd-destun sy'n berthnasol i'r etholiadau hyn. Dylech sicrhau eu bod wrth wraidd pob agwedd ar eich gwaith cynllunio.

# Natur yr etholiadau a ymleddir

2.4 Mae risgiau cynhenid o ran y cyfuniad o etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu y bydd angen eu lliniaru er mwyn i'r ddau etholiad gael eu cynnal yn dda. Er enghraifft, defnyddir dwy system etholiadol wahanol, sy'n ymgorffori dwy ffordd o bleidleisio, gyda thri phapur pleidleisio.

2.5 Bydd estyniad etholfraint y Senedd yn golygu bod pobl 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys yn gallu cymryd rhan yn y bleidlais hon am y tro cyntaf, gan olygu y bydd gwahaniaethau o ran pwy sy'n gallu pleidleisio ym mhob etholiad. Yn ogystal â chynyddu nifer cyffredinol yr etholwyr, bydd hefyd yn ehangu nifer y rheiny a allai fod yn pleidleisio am y tro cyntaf, ac y gallai fod arnynt angen rhagor o gymorth i allu bwrw eu pleidlais yn y modd y bwriadasant. Bydd hefyd yn golygu y bydd yr etholfraint yn wahanol ar gyfer pob etholiad. Bydd gwybodaeth glir sydd wedi ei theilwra ar gyfer pleidleiswyr ynghylch sut i fwrw eu pleidlais yn hanfodol i osgoi dryswch.

2.6 Bydd yn hanfodol rhoi gwybodaeth glir a phenodol i bleidleiswyr am sut i fwrw eu pleidlais er mwyn lleihau unrhyw ddryswch. Er y bydd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu gweinyddu ar sail ffiniau etholaethol y Senedd, mae nifer o etholaethau'r Senedd yn croesi ffiniau awdurdodau lleol ac nid yw pob ardal heddlu yn cyd-fynd â rhanbarth y Senedd, sy'n ychwanegu at natur gymhleth y prosesau dan sylw. Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon waeth ble maent yn byw ac er mwyn lleihau unrhyw ddryswch ymhlith pleidleiswyr, bydd angen i chi weithio'n agos gyda'r SCAH(au), SCRh(au), SCEau/SCLlau a SCau llywodraeth leol yn eich ardal.

2.7 Gallai'r dirwedd wleidyddol newidiol olygu, hyd yn oed mewn mannau lle y bu mwyafrif mawr yn draddodiadol, efallai na fydd hyn yn wir mwyach, gan olygu y gallai'r ffocws a'r amgylchiadau fod yn wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn eich ardal o'r blaen.

2.8 Efallai y bydd nifer sylweddol o bleidiau gwleidyddol newydd neu lai profiadol, ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n llai cyfarwydd ag arferion a phrosesau etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt i allu cymryd rhan yn effeithiol.

2.9 O ystyried pa mor agos ac anodd y gallai'r etholiadau fod, dylech fod yn barod i'w huniondeb fod yn destun craffu. Bydd honiadau ac achosion o dwyll etholiadol nid yn unig yn cael effaith negyddol ar hyder etholwyr ac ymgyrchwyr, ond gallent hefyd gael effaith sylweddol ar eich gallu i reoli'r prosesau etholiadol yn effeithiol. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn gweithredu cynlluniau manwl a chadarn ar gyfer monitro a chynnal uniondeb yr etholiadau yn eich ardal. Dylech weithio'n agos gyda'r heddlu lleol, gan sicrhau bod gennych linellau cyfathrebu da ar waith ar gyfer atgyfeirio unrhyw honiadau.

# Maint

2.10 Bydd angen i sawl agwedd ar gynllunio'r etholiadau adlewyrchu tybiaethau o ran y niferoedd tebygol a wnaiff bleidleisio. Bydd gwneud y fath dybiaethau ar gam cynnar o'r gwaith cynllunio yn allweddol gan mai prin y gellir newid cynlluniau ar gam hwyrach yn y broses. Mae heriau bob amser yn gysylltiedig â datblygu tybiaethau cynllunio o'r fath. Yn aml, bydd yn anodd rhagfynegi, cyn cyfnod yr etholiad, y lefelau tebygol o ymgysylltu yn yr etholiadau dan sylw. O ystyried y posibilrwydd y gwelir cryn dipyn o ddiddordeb ac ymgysylltu yn yr etholiadau hyn, na fydd rhai ohonynt yn hysbys tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio, mae angen i'r posibilrwydd y gwelir nifer fawr yn pleidleisio gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiadau.

2.11 Er enghraifft, byddai cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd yn golygu bod mwy o bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, ac mae'n hanfodol bod darpariaeth briodol ar gyfer hynny, gyda digon o orsafoedd a staff i ymdrin â'r nifer o etholwyr a ddynodir ar eu cyfer. Er bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i unrhyw bleidleisiwr sydd mewn ciw ar gyfer ei orsaf bleidleisio am 10pm fwrw pleidlais, mae dal angen sicrhau nad yw pleidleiswyr yn wynebu oedi gormodol cyn pleidleisio a'u bod yn derbyn gwasanaeth o safon.

2.12 Wrth i'r etholiadau ddod yn agosach, bydd y cyd-destun yn dal i newid wrth i'r ymgyrchoedd gynhesu. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau a allai gael effaith ar gynnal yr etholiadau'n effeithiol, a fydd yn cynnwys cael cynlluniau wrth gefn cadarn i'w rhoi ar waith os bydd angen. Er enghraifft, os darlledir Dadleuon gan yr Arweinwyr, gallent arwain at gynnydd hwyr yn nifer y ceisiadau cofrestru a phleidleisio absennol, yn ogystal â chael effaith ar y niferoedd a bleidleisiodd a gallent newid y patrwm traddodiadol pan ddychwelir pleidleisiau post wedi'u cwblhau.

2.13 Mae’n hanfodol bod darpariaeth addas o orsafoedd pleidleisio, gyda nifer y gorsafoedd a niferoedd y staff oddi mewn iddynt yn ddigonol i ymdopi â nifer yr etholwyr a ddyrennir iddynt. Er bod unrhyw bleidleiswyr sydd yn y llinell ar gyfer eu gorsaf bleidleisio erbyn 10pm yn gallu pleidleisio, erys yr angen i sicrhau nad yw pleidleiswyr yn wynebu oedi gormodol wrth bleidleisio, ac eu bod yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.

2.14 Gallai'r sylw yn y cyfryngau i gadarnhau, cyfrif a datgan y canlyniadau fod yn sylweddol a bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau, nid yn unig o ran y cyfryngau ond hefyd bawb sydd â buddiant yn y canlyniadau, drwy ymgynghori ar eich dull arfaethedig o weithredu ac wedyn nodi'n glir yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud ac erbyn pryd, yn enwedig pan fydd etholiadau cyfunol yn effeithio ar eich amseroedd datgan canlyniadau disgwyliedig.

# Cofrestru etholwyr

2.15 Mae'r ffocws ar y niferoedd sydd wedi cofrestru ac sydd heb gofrestru mor amlwg ag erioed, a disgwylir i hyn barhau.

2.16 Dylech baratoi ar gyfer y posibilrwydd y gwelir nifer fawr o geisiadau cofrestru yn agos at y dyddiad cau ar gyfer yr etholiadau a chynnwys hynny yn eich cynlluniau, gan adlewyrchu gwersi a ddysgwyd yn sgil yr etholiadau. Mae effaith ceisiadau o'r fath a chwestiynau cysylltiedig gan drigolion am eu statws cofrestru nid yn unig yn berthnasol i'r SCE ond bydd iddi hefyd oblygiadau o ran gweinyddu'r etholiad a dylai eich cynlluniau sicrhau eich bod yn gallu ymateb yn effeithiol.

2.17 Mae cofrestru ar-lein wedi esgor ar fwy o gyfleoedd i gysylltu trigolion lleol â’r broses ddemocrataidd a chynyddu lefelau cofrestru ymysg grwpiau a thangofrestrir. Mae etholiad Senedd yn cynnig llwyfan cryf ar gyfer eich gweithgarwch ymgysylltu cyhoeddus lleol. Ac nid oes angen i chi wneud hyn ar eich pen eich hun: dylid ceisio a manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda phartneriaid lleol a all ymgysylltu â phleidleiswyr mewn grwpiau a dangofrestrir yn eich ardal. Gallai hyn fod yn rhan werthfawr o’ch gwaith ymgysylltu lleol.

# 3 Rolau a chyfrifoldebau

3.1 Mae'n ofynnol i bob cyngor dinas, sir a bwrdeistref sirol benodi swyddog o'r cyngor i fod yn SC ar gyfer ethol cynghorwyr i'w awdurdod lleol.

3.2 Byddwch yn SCE ar gyfer etholiad y Senedd ac, o ganlyniad i hynny, yn SCLl ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu am eich bod SC llywodraeth leol. Os bydd etholaeth yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol, dynodir y SCE gan Weinidogion Cymru. Bydd y SCRh yn SCE a ddynodir gan Weinidogion Cymru hefyd. Mewn etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, penodir SCLl ar gyfer pob ardal bleidleisio yn ardal yr heddlu. Diffinnir yr ardal bleidleisio yn ardal etholaeth y Senedd.

## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

3.3 Rydych yn chwarae rhan ganolog yn y broses ddemocrataidd. Eich rôl yw sicrhau bod yr etholiadau yn cael eu gweinyddu'n effeithiol, ac o ganlyniad i hynny bod profiad etholwyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad yn un cadarnhaol. I wneud hyn, fel SCE ac SCLl, bydd angen i chi weithredu system effeithiol ar gyfer cysylltu â'r SCRh (os nad chi sy'n cyflawni'r rôl honno hefyd), SCEau/SCLlau a'r SCAH.

3.4 Os mai chi yw'r SCRh neu'r SCAH hefyd, byddwch hefyd mewn sefyllfa unigryw i gydweithio â'r SCEau/SCLlau yn eich ardal er mwyn sicrhau bod pawb sy'n pleidleisio yn yr etholiadau yn cael profiad cyson o safon.

3.5 Ar gam cynnar, dylech amlinellu'r hyn y mae pob un ohonoch am ei gyflawni a sut beth fyddai llwyddiant i chi.

3.6 Fel SCE, yn eich etholaeth, mae gennych gyfrifoldeb personol am y ffordd y cynhelir etholiad y Senedd, gan gynnwys:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth[4]
- gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer yr etholaeth[5]
- annog cyfranogiad
- cyhoeddi'r datganiad o'r sawl a enwebwyd a'r hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth[6]
- darpariaeth a chyfarpar gorsafoedd pleidleisio[7]
- penodi staff gorsafoedd pleidleisio[8]
- trefn cynnal yr etholiad[9]
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post[10]
- cadarnhau a chyfrif y pleidleisiau ar gyfer yr etholaeth a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a ymleddir sy'n perthyn i'r etholaeth[11]
- datgan canlyniad yr etholaeth[12]
- trosglwyddo'r ddau ganlyniad i'r SCRh[13]

3.7 Ar gyfer etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, byddwch hefyd yn gyfrifol am elfennau cyfunol yr etholiadau, gan gynnwys:

- darparu gorsafoedd pleidleisio
- penodi a hyfforddi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cynnal yr etholiad
- hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- hysbysiad gofynion cyfrinachedd gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n caniatáu iddynt bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a ddyrannwyd ar eu cyfer
- yr awdurdod i orchymyn bod pobl yn gadael gorsafoedd pleidleisio
- cadarnhau pob papur pleidleisio
- lle penderfynwyd anfon pleidleisiau post gyda'i gilydd:
    - y rhestr rhifau gyfatebol
    - anfon pleidleisiau post gan gynnwys creu copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i nodi pan y'i hanfonir
    - agor pleidleisiau post gan gynnwys nodi'r datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd ar y rhestrau a chadarnhau'r manylion adnabod personol ar y datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd

3.8 Fel SCLl, yn eich ardal bleidleisio rydych yn bersonol gyfrifol am y canlynol:

- cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn eich ardal bleidleisio[14] (oni fydd yr SCAH wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)
- trosglwyddo'r cyfanswm lleol ar gyfer yr ardal bleidleisio i'r SCAH[15]
- argraffu'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (oni fydd yr SCAH wedi rhoi gwybod y bydd yn gyfrifol am hyn)
- rheoli'r broses o bleidleisio drwy'r post yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (ond dim ond os penderfynwyd peidio ag anfon pleidleisiau post ar gyfer yr etholiadau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu gyda'i gilydd)

3.9 Mae eich dyletswyddau fel SCE ac SCLl ar wahân i'ch dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel SCE ac SCLl nid ydych yn gyfrifol i'r awdurdod lleol ond rydych yn uniongyrchol atebol i'r llysoedd fel deiliad swydd statudol annibynnol.

3.10 Er y gallwch benodi un neu fwy o unigolion i gyflawni unrhyw un o'ch swyddogaethau fel SCE ac SCLl[16], os nad i gyd, ni allwch ddirprwyo eich cyfrifoldeb personol am gyflawni eich dyletswyddau yn yr etholiadau. Rhoddir rhagor o wybodaeth am benodi dirprwyon yn Rhan B - Cynllunio a threfnu.

# Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

3.11 Os mai chi yw'r SCRh hefyd, yn eich rhanbarth byddwch yn bersonol gyfrifol am y canlynol:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth[17]
- gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer y rhanbarth[18]
- os oes angen, hysbysu SCEau yn eich rhanbarth am sut y dylid rhoi gwybod i chi am nifer y pleidleisiau a roddwyd i bleidiau cofrestredig ac ymgeiswyr unigol ar gyfer y bleidlais ranbarthol yn eich etholaeth[19]
- cyhoeddi'r datganiad o'r unigolion a'r pleidiau a enwebwyd a'r hysbysiad etholiad ar gyfer y rhanbarth[20]
- coladu a chyfrifo nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd unigol a phlaid wleidyddol yn yr etholiad rhanbarthol, a chyfrifo dyraniad y seddi ar gyfer yr etholiad rhanbarthol[21]
- datgan y canlyniad rhanbarthol[22]

# Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

3.12 Dylai fod gennych wybodaeth ddigonol am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir yr etholiadau. Felly, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol penodol, dylai fod gennych drosolwg o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gynnwys a dealltwriaeth o sut mae'n effeithio ar y broses o weinyddu'r etholiadau, fel eich bod yn gallu adolygu'r broses gyfan, ei chwestiynu lle bo angen a sicrhau ei hansawdd.

3.13 Mae cyfrifoldebau rheoli ynghlwm wrth eich rôl. Er enghraifft, dylech:

- orchymyn y staff a'r adnoddau gofynnol er mwyn cynnal yr etholiadau'n dda
- sicrhau'r cymorth, sgiliau ac arbenigedd angenrheidiol o bob rhan o'ch awdurdod lleol eich hun
- goruchwylio'r broses o gynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg yr etholiadau ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd o etholiadau blaenorol
- nodi a goruchwylio unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn lliniaru unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu priod rolau
- cefnogi'r staff sy'n gweinyddu'r etholiadau a goruchwylio eu gwaith yn briodol
- cyfarwyddo staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- os nad chi yw'r SCRh hefyd, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r SCRh
- os nad chi yw'r SCAH hefyd, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r SCAH

- os yw'r etholaeth yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r SCE(au)
- yn achos etholaethau trawsffiniol, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r SCE ar gyfer yr ardal awdurdod lleol arall
- cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r SCEau yn eich rhanbarth etholiadol er mwyn helpu i sicrhau bod etholwyr ar draws y rhanbarth yn cael profiad cyson o ansawdd uchel
- yn achos etholaethau trawsffiniol, ceisio cyngor a chymorth gan y SCE a staff yn yr awdurdod lleol arall
- cynnal cydberthynas waith effeithiol â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu
- sicrhau bod cyfrifon etholiadau yn cael eu cwblhau'n amserol

# Torri dyletswydd swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol

3.14 Mae'r SCE, SCRh ac SCLl hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau torri dyletswydd swyddogol. Felly, os byddant hwy neu eu dirprwyon penodedig, heb achos rhesymol, yn euog o unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n torri dyletswydd swyddogol byddant hwy (a/neu eu dirprwyon) yn atebol i dalu dirwy anghyfyngedig o dan gollfarn ddiannod.

3.15 Mae gan yr SCE, SCRh a'r SCLl y pŵer i gymryd unrhyw gamau sydd, yn eu barn hwy, yn briodol er mwyn datrys unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o swyddogaethau'r etholiadau y maent yn gyfrifol amdanynt ac nad ydynt yn unol â'r rheolau[23].

3.16 Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r SCE, SCRh a'r SCLl i gywiro gwallau gweithdrefnol a wneir ganddynt hwy, Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu neu ddarparwr nwyddau neu wasanaethau i'r SCE/SCRh/SCLl (neu unrhyw un o'u dirprwyon).

3.17 Pan fydd SCE/SCLl/SCRh yn datrys gweithred neu hepgoriad yn llawn gan ddefnyddio eich pŵer i gywiro gwall gweithdrefnol, ni fyddant yn euog o dorri dyletswydd swyddogol[24]. Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi, fel SCE, i ailgyfrif y pleidleisiau unwaith y bydd canlyniad yr etholaeth wedi'i ddatgan, ac nid yw ychwaith yn galluogi'r SCRh i ailgyfrifo'r canlyniad ar gyfer y rhanbarth unwaith y bydd y canlyniad wedi'i ddatgan. Yn yr un modd, fel SCLl, nid yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i ailgyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu unwaith y bydd y canlyniad wedi'i ddatgan[25].

3.18 Fel SCE ac SCLl, mae gennych gyfrifoldeb personol am y ffordd y cynhelir etholiadau yn eich etholaeth. Dylech sicrhau bod gennych yswiriant a'i fod yn gyfredol. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd yr etholiadau yn cael eu herio ac y gwneir honiad yn eich erbyn. Os mai chi yw'r SCRh hefyd, dylech sicrhau bod gennych yswiriant priodol ar gyfer eich cyfrifoldebau fel SCRh hefyd a'i fod yn

gyfredol. Efallai y bydd y tîm yn eich awdurdod lleol sy'n ymdrin ag yswiriant yn gallu helpu i bennu pa yswiriant sydd eisoes wedi'i drefnu ac ar gael, a rhoi cyngor ar p'un a ddylid ei ymestyn.

# Penodiad, rôl a chyfrifoldebau Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu

3.19 Dynodir yr SCAH gan Orchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid iddo fod yn Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer etholaeth Seneddol yn y DU sy'n syrthio'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu[26].

3.20 Mae'r SCAH yn bersonol gyfrifol am y canlynol:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[27]
- gweinyddu'r broses enwebu ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[28]
- cyhoeddi datganiad y rhai a enwebwyd[29]
- sicrhau bod ymgeiswyr Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn bodloni'r gofynion o ran cynnwys eu cyfeiriadau etholiadol[30]
- coladu a chyfrifo nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a chyfrifo'r canlyniad[31]
- datgan y canlyniad ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[32]

3.21 Efallai y bydd yr SCAH hefyd yn gyfrifol am y dyletswyddau SCLl canlynol drwy hysbysu'r SCLl(au) perthnasol am y canlynol:

- argraffu papurau pleidleisio'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- gwirio
- cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu[33]

3.22 Mae gan yr SCAH y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i SCLlau sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gan gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i SCLlau gymryd camau paratoadol penodol neu roi unrhyw wybodaeth sydd ganddynt neu y mae ganddynt hawl i'w chael. Nid yw'r pŵer hwn i roi cyfarwyddiadau yn ymestyn i etholiad llywodraeth leol nac elfennau cyfunol yr etholiad[2].

[2] Heblaw am y ffaith y caiff yr SCAH bennu erbyn pryd y mae'n rhaid i weithdrefnau dilysu ddechrau (oni fydd un o'r etholiadau cyfunol yn etholiad seneddol y DU).

# 4 Safonau perfformiad

4.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn pennu safonau ac yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau[34]. Mae'r safonau perfformiad sy'n gymwys i'r etholiadau ar gael yn Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau.

4.2 Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad, ac yn arbennig p'un a yw Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gall pobl fwrw eu pleidlais yn hawdd ac maent yn gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

4.3 Mae rhannau B - Dd o'r canllawiau yn cynnwys yr hyn y disgwyliwn y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau fod wedi'i roi ar waith, a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld i allu bodloni ein hunain y gall prif ganlyniadau'r safonau gael eu cyflawni.

# Atodiad A - Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

## Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

**Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl i fwrw eu pleidlais yn hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd**

| Canlyniad | Beth sydd angen i'r SC ei wneud i gyflawni hyn | Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad |
|---|---|---|
| Pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais | • Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn<br>• Gwerthuso'r gwaith o gynllunio ar gyfer etholiadau blaenorol a'u cynnal a nodi'r gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddaru cynlluniau fel y bo angen<br>• Rhoi trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb<br>• Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio na hysbysiad etholiad | • Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd<br>• Dogfennaeth gynllunio sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd<br>• Trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr<br>• Prosesau ar gyfer prawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio a hysbysiad etholiad<br>• Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny<br>• Gwybodaeth pleidleisio ar gael yn hawdd ar wefan yr awdurdod lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth<br>• Sicrhau bod gwybodaeth am bleidleisio, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol | |
| Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon | • Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu<br>• Penderfynu ar y ffordd y pennir etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn cael eu staffio'n gywir fel bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon, gan ystyried y ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn<br>• Sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr<br>• Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn | • Asesu anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu i'w datrys<br>• Y ffordd yr eir ati i bennu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio<br>• Canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio<br>• Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny |

| | | |
|---|---|---|
| | pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth | |
| Gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd | • Cynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post<br>• Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath<br>• Cadw papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel drwy'r amser<br>• Rhoi adnoddau ar waith i sicrhau bod y gwaith dilysu a chyfrif yn amserol<br>• Sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i bleidleiswyr mewn ffordd glir ac amserol<br>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir | • Trefniadau i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post<br>• Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb<br>• Trefniadau i storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel<br>• Gwybodaeth am sut y caiff y gwaith dilysu a chyfrif ei drefnu a'i reoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych i ddod i'ch penderfyniad<br>• Trefniadau ar gyfer cyfleu canlyniadau i bleidleiswyr<br>• Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif |

# Safon perfformiad 2: Y sawl sydd am sefyll etholiad

**Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli**

| Canlyniad | Beth sydd angen i'r SC ei wneud i gyflawni hyn | Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r sawl sydd am sefyll etholiad yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny | • Sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn cael canllawiau ysgrifenedig<br>• Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i'w papurau enwebu gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol | • Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr<br>• Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio<br>• Trefniadau ar waith i ymgeiswyr gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol |
| Gall ymgeiswyr fod yn hyderus y caiff y broses ei rheoli'n dda, a chael hyder yn y canlyniadau | • Sicrhau bod y rhai sydd â'r hawl i fynd i sesiynau agor pleidleisiau post yn gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd<br>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r broses dilysu a chyfrif yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi iddynt ar y | • Cynllun o sesiynau agor pleidleisiau post<br>• Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post<br>• Cynllun y cyfrif<br>• Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif |

| | | |
|---|---|---|
| | prosesau i'w dilyn<br>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir<br>• Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath | • Trefniadau ar waith i rannu hynt y cyfrif<br>• Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif<br>• Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb |

# Performance standard for statutory office holders with a power of direction

| Performance standard 3: Co-ordination and management of the poll<br><br>**Co-ordinating the planning for and delivery of the poll to ensure a consistent high-quality experience for voters and those wanting to stand for election** | | |
|---|---|---|
| Outcome | What does the statutory office holder need to do to achieve the outcome | What will demonstrate how the outcome has been met |
| To ensure that local ROs have the necessary arrangements in place to deliver well-run elections in their area | • Develop and implement robust project management processes<br>• Develop guidance and issue directions where necessary to ensure the effective administration of the polls in each local RO area<br>• Develop and implement plans for communicating with local ROs<br>• Develop and implement a strategy for co-ordinating and delivering public | • Project planning documentation which is kept under regular review<br>• Arrangements for ensuring the consistent delivery of the poll, including guidance issued and whether and how you have used your power to give directions<br>• Plans for communicating with local ROs<br>• A strategy for co-ordinating and |

| | | |
|---|---|---|
| | awareness and engaging with electors across the area<br>• Where appropriate, develop a process for receiving and submitting local results | delivering public awareness activity and engaging with electors across the area<br>• Arrangements on how you intend to manage the process of collating local results, including any protocols and guidance issued to local ROs |

[1] SI 2007/236 Art.18.
[2] SI 2007/236 Art.18.
[3] SI 2012/1917 Art.2
[4] SI 2007/236 Sch.5 para 3(1).
[5] SI 2007/236 Sch.5 paras 4 to 20
[6] SI 2007/236 Sch.5 para 16 and 32
[7] SI 2007/236 Sch.5 paras 34 and 37
[8] SI 2007/236 Sch.5 para 38.
[9] SI 2007/236 Sch.5 paras 41-53
[10] SI 2007/236 Sch.3, Sch.5 paras 33 and 40
[11] SI 2007/236 Sch.5 paras 54 and 61
[12] SI 2007/236 Sch.5 para 62.
[13] SI 2007/236 Sch.5 paras 61 and 62(3).
[14] SI 2012/1917 Sch.3 paras 48-56 and para 60.
[15] SI 2012/1917 Sch.3 para 57
[16] SI 2007/236 Art.20, SI 2012/1918 Reg.5
[17] SI 2007/236 Sch.5 para 3(2).
[18] SI 2007/236 Sch.5 paras 6-20.
[19] SI 2007/236 Sch.5 para 61(4).
[20] SI 2007/236 Sch.5 paras 17 and 32

[21] SI 2007/236 Sch.5 para 63
[22] SI 2007/236 Sch.5 para 64
[23] SI 2007/236 Art.21, SI 2012/1918 Reg.6
[24] SI 2007/236 Art.32(4), SI 2012/1917 Art.19(4)
[25] SI 2007/ Art 21(2), SI 2012/1918 Reg.6(2)
[26] SI 2012/1917 art 2 and SI 2012/2085 Art.3
[27] SI 2012/1917 Sch.3 para 4
[28] SI 2012/1917 Sch.3 paras 5 to 16.
[29] SI201/1917 Sch 3 para 13
[30] SI 2012/1917 Art. 52(2) and Sch.8.
[31] SI 2012/1917 Sch.3 paras 57-61.
[32] SI 2012/1917 Sch.3 para 62.
[33] SI 2012/1918 reg.3(4)
[34] Political Parties Elections and Referendums Act 2000 s.9A.